OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 896

# Rheoliadau Datgymhwyso rhag Gofalu am Blant (Cymru) 2002

**Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Datgymhwyso rhag Gofalu am Blant (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2002.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "yr Atodlen" ("*the Schedule*") yw'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn;

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Safonau Gofal 2000(**1**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Plant 1989.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

**Datgymhwyso rhag maethu plentyn yn breifat**

**2.** At ddiben adran 68 o'r Ddeddf (personau sydd wedi'u datgymhwyso rhag bod yn rhieni maeth preifat) mae person wedi'i ddatgymhwyso rhag maethu plentyn yn breifat—

(a) os yw'r person wedi'i gollfarnu o unrhyw dramgwydd a bennir yn Rhan I o'r Atodlen; neu

(b) os yw'r person yn berson perthnasol a grybwyllir yn Rhan II o'r Atodlen.

**Datgymhwyso rhag cofrestru ar gyfer gwarchod plant a darparu gofal dydd**

**3.**—(1) At ddiben paragraff 4 o Atodlen 9A i'r Ddeddf (datgymhwyso rhag cofrestru) mae person, yn ddarostyngedig i reoliad 4, wedi'i ddatgymhwyso rhag cofrestru o dan Ran XA o'r Ddeddf ar gyfer gwarchod plant neu ddarparu gofal dydd—

(a) os yw'r person wedi'i gollfarnu o unrhyw dramgwydd a grybwyllir yn Rhan I o'r Atodlen; neu

(b) os yw'r person yn berson perthnasol a grybwyllir yn Rhannau II neu III o'r Atodlen; neu

(c) os yw'r person wedi'i ddatgymhwyso ar unrhyw bryd rhag maethu plentyn yn breifat.

(2) Yn ddarostyngedig i reoliad 4, mae person sy'n byw—

(a) ar yr un aelwyd â pherson sydd wedi'i ddatgymhwyso o dan baragraff (1); neu

(b) ar aelwyd lle mae unrhyw berson o'r fath yn cael ei gyflogi,

wedi'i ddatgymhwyso rhag cofrestru o dan Ran XA o'r Ddeddf ar gyfer gwarchod plant neu ddarparu gofal dydd.

**Hepgoriadau awdurdod lleol**

**4.** Rhaid peidio ag ystyried bod person wedi'i ddatgymhwyso o dan reoliad 3 os oedd y person, cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym—

(**1**) 2000 p.14.

(a) wedi datgelu ffeithiau i awdurdod lleol priodol o dan baragraff 2 o Atodlen 9 i'r Ddeddf a fyddai'n datgymhwyso'r person o dan reoliad 3; a

(b) wedi sicrhau cydsyniad ysgrifenedig yr awdurdod lleol hwnnw.

**Diddymu**

**5.** Mae Rheoliadau Datgymhwyso rhag Gofalu am Blant 1991(**2**) wedi'u diddymu i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*Rhodri Morgan*
Prif Weinidog Cynulliad Cenedlaethol Cymru

26 Mawrth 2002

(**2**) O.S. 1991/2094 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1997/2308. Mae'r Rheoliadau wedi'u diddymu mewn perthynas â Lloegr gan O.S. 2002/635.
(**3**) 1998 p. 38.